**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 05-01(p4)**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher 21 Mawrth 2001**
**Amser:** **2.00 – 5.30pm**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**
**Teitl:** **Nodyn o Gyfarfod cynrychiolwyr Pwyllgorau Monitro Rhaglenni a Chadeiryddion Amcanion 1, 2 a 3 – a gynhaliwyd ym Mae Caerdydd ar 5 Mawrth 2001**

**Yn bresennol:**

Amcan 1 Chris Chapman AC
Ron Hughes
Anne Meikle
Stephen Cole

Amcan 2 John Griffiths AC
Karen Latham

Amcan 3 Michael German AC
Kirsty Williams AC
Howard Sinclair
Huw Kyffin

Swyddogion John Clarke
Emyr Roberts
Sheila Maxwell
Damien O'Brien

Val Feld AC– Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd
John Grimes – Clerc y Pwyllgor Datblygu Economaidd
Siân Wilkins – Dirprwy Glerc y Pwyllgor Datblygu Economaidd

Nick Bennett – Ymgynghorydd Arbennig

1. Wrth agor y cyfarfod, dywedodd Mike German eu bod wedi gwahodd cynrychiolwyr Pwyllgorau Monitro Rhaglenni ar gyfer Amcanion 1, 2 a 3 i'r cyfarfod. Fodd bynnag, byddai Pwyllgorau Monitro yn cael eu sefydlu ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig, Leader, Urban ac Interreg hefyd. Bwriedir sefydlu pwyllgor rheoli ar gyfer Equal hefyd. Gyda'i gilydd cynhwysai'r hyn ystod eang o raglenni a byddai llawer o bobl yn ymwneud â hwy. Dywedodd ei fod ef a Val Feld yn teimlo'i bod yn bwysig sefydlu rhywfaint o synergedd rhyngddynt.

2. Diben y cyfarfod hwn oedd edrych ar y posibiliadau a cheisio sefydlu sylfaen ar gyfer cyfarfodydd pellach. Awgrymodd y gallai strwythur y cyfarfod hwn fod fel a ganlyn: yn gyntaf, trafod y ffordd orau o fwydo strategaethau cyffredinol y Cynulliad i'r rhaglenni; wedyn trafod sut y mae'r pecynnau cymorth ariannol yn cael eu gweithredu; yna arferion gorau o ran monitro a faint o le oedd i rannu profiadau; ac yn olaf maint cyfarfodydd y dyfodol, y gynrychiolaeth a pha mor aml y caent eu cynnal.

**Cyswllt â Strategaethau'r Cynulliad Cenedlaethol**

***3.*** Cyfeiriodd Mike German at y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol a'r Adolygiad o Wasanaethau Cymorth a Datblygu i Fusnesau gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Ar ben hynny ceir Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth sy'n cynnwys y strategaeth cyfradd sefydlu busnesau. Dywedodd y byddai argymhellion ar gyfer ariannu rhannau o'r gwahanol strategaethau yn cael eu cyflwyno a'i bod yn bwysig gwybod sut i ddefnyddio arian o Ewrop yn y cyd-destun hwnnw.

4. Yn y drafodaeth, cyfeiriodd cyfranwyr hefyd at raglenni datblygu cynaliadwy, llythyr Jane Davidson at ELWA ynghylch y cylch gorchwyl a hefyd raglenni'r DU fel O Fudd-dâl i Waith. Cytunwyd y byddai'n fuddiol nodi'r prosiectau yn erbyn y gwahanol strategaethau
**[Gweithredu: John Clarke]**

5. Yn y cyfarfod cymeradwywyd yn gynnes yr egwyddor y dylid ceisio annog synergedd rhwng y rhaglenni hyn a rhaglenni a pholisïau'r Cynulliad. Nodwyd bod yn rhaid gwneud hyn i raddau yng nghamau cynnar y broses o ddatblygu prosiect a'i bod yn bwysig marchnata'r cymorth sydd ar gael ar gyfer rhaglenni gan gadw'r rhaglenni a pholisïau cyffredinol mewn cof.

6. Gwnaeth nifer o gyfranogwyr y sylw eu bod yn credu bod y mecanweithiau presennol eisoes yn rhoi ystyriaeth i bolisïau'r Cynulliad e.e. yn y system o roi sgôr i brosiectau sy'n ceisio cymorth. Fodd bynnag, roedd yn bwysig bod aelodau'r Pwyllgorau Monitro Rhaglenni yn deall y blaenoriaethau yn llawn ac roedd hyn yn amlygu'r angen i hyfforddi aelodau a chadeiryddion a'u briffio'n dda yn gyffredinol.

7. Trafodwyd rhywfaint ar y strwythur trefniadol sylfaenol. Cyfeiriodd Mike German at y papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 17 Ionawr, a oedd yn esbonio'r sefyllfa ffurfiol. Serch yr angen i gefnogi polisïau'r Cynulliad, nodwyd bod aelodau'r Pwyllgorau Monitro Rhaglenni wedi eu penodi i wneud penderfyniadau ac i fod yn atebol amdanynt. Yn amlwg nid cyfrifoldeb y Cynulliad ydoedd gan fod gan y Cynulliad aelodau ar y gwahanol Bwyllgorau Monitro Rhaglenni.

8. Nodwyd hefyd bod y prosesau'n llawer symlach yn Iwerddon, er enghraifft, oherwydd y rhoddwyd y per i wneud penderfyniadau yn nwylo unigolyn. Fodd bynnag, roedd Cymru wedi

mabwysiadu dull o weithio sy’n annog partneriaeth, ac er y gallai hyn arwain at broses astrus o wneud penderfyniadau, ystyriwyd mai dyma sy’n briodol.

9. Tynnodd cynrychiolwyr WEFO sylw at y ffaith mai hwy yw’r elfen gyffredin rhwng y gwahanol raglenni ac y dylent allu darparu ffordd o rannu gwybodaeth ac arferion gorau. Gallai hyn arwain at newidiadau yn y system sgorio a ddefnyddir ar gyfer prosiectau er enghraifft, fel y gallant gyd-fynd yn well â pholisïau’r Cynulliad.

**Cyllid**

10. Gwnaeth Mike German y sylw bod lefelau sylweddol o arian ar gael nawr ar gyfer prosiectau yng Nghymru – yr her oedd llunio pecyn ariannu priodol er mwyn sicrhau cymorth trwy’r gwahanol gynlluniau. Yr oedd teimlad cyffredinol ei bod yn anodd nodi pob ffynhonnell o arian cyfatebol, a thra bod yr wybodaeth ar gael o sawl lle, yr hyn oedd ei angen mewn gwirionedd oedd un ganolfan ble y gellid cael gwybodaeth am bob ffynhonnell. Awgrymwyd bod angen cael rhywun a fyddai’n gallu rhoi cyngor a chymorth arbenigol a rhywun i wrando ar syniadau ochr yn ochr ag unrhyw system o ddarparu gwybodaeth.

11. Dywedodd swyddogion y cynhaliwyd ymarfer yn ddiweddar i ddatblygu canllawiau ar arian cyfatebol ond gwelwyd ei bod yn anodd ei roi mewn fformat defnyddiol. Roedd hynny ynddo’i hun yn cadarnhau cymhlethdod y sefyllfa ac yn amlygu’r broblem sy’n wynebu pobl y tu allan. Awgrymwyd y dylid ceisio adfer y gwaith hwn ac edrych ar y problemau eto.

12. Nodir eto bod WEFO mewn sefyllfa ganolog i ddarparu a chyfnewid gwybodaeth a dywedodd John Clarke y byddai’n darparu rhestr o bwy sy’n gwneud beth o fewn WEFO i ddechrau. **[Gweithredu: John Clarke]**

13. Dywedodd Mike German wrth gloi y bu’r ddadl yn un ddefnyddiol a’i bod yn bwysig iddi barhau os oes unrhyw obaith o ddatrys y problemau difrifol hyn. Dywedodd y byddai swyddogion yn ystyried y materion ymhellach a sut i fynd i’r afael â hwy cyn cyfarfod yn y dyfodol. **[Gweithredu: Emyr Roberts/John Clarke.]**

**Arferion Gorau**

14. Awgrymwyd bod 3 maes lle gellid, ar yr olwg gyntaf, symud ymlaen â’r broses o rannu arferion gorau.

a. rhannu gwybodaeth ynghylch y broses bolisïau – gwahoddwyd cyfranogwyr i e-bostio John Clarke yngln ag unrhyw syniadau sydd ganddynt;

b. hyfforddiant ar gyfer aelodau Pwyllgorau Monitro Rhaglenni;

c. hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Monitro Rhaglenni.

**Cyfarfodydd Pellach y Grp hwn**

15. Yr oedd teimlad cyffredinol bod angen cyfarfodydd pellach fel hyn a bod 3 aelod o bob Pwyllgor Monitro Rhaglen yn rif priodol mae'n debyg. Y teimlad oedd y dylai'r Grp gyfarfod yn llai aml na'r Pwyllgorau Monitro Rhaglenni er y gallai fod yn ddefnyddiol i gyfarfod yn amlach i ddechrau. Cytunwyd bod angen agenda fwy ffurfiol ac y dylid cynnal y cyfarfod nesaf ymhen 3 mis.

16. Hefyd cafwyd trafodaeth ynghylch ai da o beth fyddai dod â holl aelodau'r Pwyllgorau Monitro Rhaglenni ynghyd, unwaith y flwyddyn efallai, ynghyd ag aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Er y gallai hyn olygu llawer o bobl, mae'n debyg mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau cydlynu a chydweithredu yn y broses o ddatblygu strategaeth gyffredinol. Awgrymwyd y gellid hefyd dod ag aelodau ynghyd mewn cyfarfodydd rhanbarth efallai. Yr hyn sy'n allweddol yw sicrhau bod pobl yn siarad gyda'i gilydd, yn rhannu syniadau, ac yn datblygu ymdeimlad o weithio tuag at nod cyffredin. Cytunwyd y dylid ystyried hyn ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

**14 Mawrth 2001 Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**